

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Croeso nôl..

..a chroeso cynnes arbennig i'r rheiny ohonoch sy'n cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf. Gobeithiaf i chi i gyd fwynhau gwyliau'r haf, ac chael cyfle i ymlacio rhywfaint. Mae'n dymor newydd yn yr ysgol, a bydd yma wyneb newydd ar y staff hefyd. Croeso cynnes i Mrs Caryl Jones a fydd yn Ddirprwy Bennaeth yn yr ysgol ac yn ymgymryd â dyletswyddau'r CADY (Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) Cewch gyfle i gwrdd â Mrs Jones wrth y giât yn y boreau.

Ymateb i'r holiadur rhieni – newid trefniadau bore a phrynhawn

Ar ddiwedd tymor yr haf anfonwyd dolen atoch er mwyn casglu eich barn am yr ysgol. Diolch i chi a ddychwelodd yr holiadur er mwyn ein cynorthwyo i geisio gwella'r ysgol. Mi fyddaf yn rhannu canlyniadau'r holiadur ac yn ymateb yn llawnach i'r sylwadau a nodwyd yn fuan, ond tan hynny hoffwn dynnu sylw at ddau beth yn benodol, sef y trefniadau boreol a threfniadau casglu ddiwedd y dydd. Cafwyd sylwadau da ar y ddau fater yma, ac o'r herwydd rydym wedi penderfynu ar y canlynol:

- **Yn ystod wythnos gyntaf pob tymor byddwn yn caniatáu i rieni ddod i mewn i adeilad yr ysgol gyda'u plant yn y bore.** Mae hyn yn sgîl sylwadau yr hoffech fel rhieni weld yr ystafell ddosbarth mae'ch plentyn yn ei mynychu bob dydd. Bydd hyn yn gyfle i chi brofi'r awyrgylch ddysgu yn well a dod i adnabod yr athrawon. Byddwch yn medru gwneud hyn felly o ddydd Mawrth 5ed tan ddydd Gwener 8fed o Fedi, ac yn cael mynediad i'r ysgol ar ôl 8:30yb. Disgwylir i bawb adael y safle cyn 9 o'r gloch er mwyn i ni gofrestru'r plant a chychwyn ein amser dysgu. Yr wythnos ganlynol mi fyddwn yn dychwelyd i'r drefn o ollwng wrth y giât. Y rheswm dros beidio dilyn y drefn hon yn barhaol yw oherwydd (i) medrwn gadw'r plant a'r staff yn fwy diogel ar y safle yn y boreau, (ii) mae'r plant yn magu annibyniaeth yn well, a (iii) mae llif y drafnidiaeth yn well ac yn rhyddhau'r llefydd parcio (byddwch yn barod ar gyfer y trafferthion parcio wythnos nesaf felly – anogwn chi i gerdded neu feicio os yn bosib os gwelwch yn dda.)
- Y drefn ar ddiwedd y dydd ar hyn o bryd yw bod y plant i gyd yn gadael gyda'r aelod hynaf o'r teulu. Oherwydd hyn mae nifer ohonoch yn colli ar y cyfle i gasglu'ch plant iau gan yr athrawon ac oherwydd yn colli'r cyswllt gyda'r athrawon a rhieni eraill y dosbarth. Mae tipyn o gyfrifoldeb hefyd ar y plentyn hynaf i gasglu'r rhai iau a chyrraedd y man casglu. Gwnaethpwyd y newidiadau hyn yn wreiddiol wrth gwrs oherwydd y pandemig, ond teimlwn erbyn hyn fod modd i ni ddychwelyd i'r drefn lle y bydd pawb yn cael eu casglu o giât y prif fynedfa, gan gadw at y drefn amser canlynol, wedi'u gwasgaru, er mwyn sicrhau gofod i bawb a chaniatáu i chi fel rhieni i adael y safle a'r meysydd parcio yn raddol.
Bydd pob un plentyn felly yn gadael gyda'i athro/awes ddosbarth ei hun ar yr amserau canlynol:

3:20 – Meithrin – i'w casglu o ardal chwarae allanol y Meithrin

3:20 – Derbyn – i'w casglu o'r drws ffrynt (drws arferol y Meithrin)

3:20 – Bl.1a2 – i'w casglu o flaen yr ysgol – bl.1 ochr y Neuadd; bl.2 ochr y gysgodfan feics

3:25 – Bl.3a4 – i'w casglu o flaen yr ysgol – bl.3 ochr y Neuadd; bl.4 ochr y gysgodfan feics

3:30 – Bl.5a6 – i'w casglu o flaen yr ysgol.

Byddwn yn monitro'r drefn newydd hon ac yn ei addasu os y gwelwn yr angen i wneud hynny. Mae'n anodd rhagweld sut fydd y drefn yn gweithio, ond gofynnwn yn garedig i bawb geisio'u gorau i addasu a bod yn brydlon.

Clwb Brecwast

Bydd y Clwb Brecwast ar agor yn ddyddiol eleni eto. Medrwn ollwng eich plant am 8:15yb i fynychu'r Clwb. Er mwyn i ni gael amcan o'r niferoedd fydd yn mynychu mae angen i chi gofrestru cyn iddynt gychwyn drwy ebostio swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk Mae'r Clwb Brecwast yn darparu sudd a iogwrt i'r rhai sy'n dymuno.

Clwb Ar Ôl Ysgol

Bydd y Clwb Ar Ôl Ysgol yn parhau gan ddilyn yr un drefn ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Bydd doler Forms yn cael ei hanfon allan yn wythnosol ar gyfer archebu lle ar gyfer yr wythnos ganlynol. Y gost ar gyfer y Clwb yw £8 y noson y plentyn. Mae'r Clwb ar agor tan 5:15yh

Ymaelodi gyda'r Urdd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd rydym yn annog disgyblion i ymaelodi gyda'r Urdd. Medrwch wneud hynny drwy fynd i [Ymuno | Urdd Gobaith Cymru](#) Trwy fod yn aelod byddwch yn medru mynychu Clwb yr Urdd a chymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon ac eisteddfodol yn ystod y flwyddyn.

Lluniau unigol/teuluol

Bydd cwmni tynnu lluniau Tempest yn yr ysgol ar ddydd Iau y 12fed o Hydref yn neuadd yr ysgol ar gyfer tynnu lluniau unigolion a theuluoedd.

Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Fel y gwelwch, mae'n gymharol wag ar hyn o bryd, ond byddwn yn ychwanegu ato wrth i weithgareddau amrywiol gael eu trefnu. Bydd doler i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol www.ysgolgymraeg.cymru

Dyddiadau pwysig

Dymunwn eich hysbysu o ddyddiadau pwysig ar ddiwedd pob llythyr. Er gwybodaeth y dyddiad ar gyfer y Cyngerdd Nadolig eleni yw Rhagfyr 13eg yn y Neuadd Fawr; a bydd yr ysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ar ddydd Iau y 21ain o Ragfyr am 3:30yp.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

Yn gywir,

Gareth L James

Pennaeth Dros Dro

01/09/2023



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613

Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher: Mr Gareth L James

Welcome back ..

..and a special warm welcome to those of you who are starting school for the first time. I hope you all enjoyed the summer holidays and have had a chance to relax. It's a new term at the school, and there will be a new face on the staff too. A warm welcome to Mrs Caryl Jones who will be the Deputy Headteacher and undertake the duties of the ALNCo (Additional Learning Needs Coordinator) You will have the opportunity to meet Mrs Jones at the gate in the mornings.

Responding to the parent questionnaire - changing morning and afternoon arrangements

At the end of the summer term we sent you a link to collect your opinion about the school. Thank you to those who returned the questionnaire in order to assist us in trying to improve the school. I will share the results of the questionnaire and respond more fully to the comments noted shortly, but until then I would like to draw attention to two things in particular, namely the morning arrangements and the collection arrangements at the end of the day. There were good comments made on these two issues, and as a result we have decided on the following:

- ***During the first week of each term we will allow parents to enter the school building with their children in the morning.***
This is due to comments that you as parents would like to see the classroom your child attends every day. This will be an opportunity for you to experience the learning atmosphere better and get to know the teachers. You will be able to do this from Tuesday 5th until Friday 8th September, having access to the school after 8:30am. Everyone is expected to leave the site before 9 o'clock so that we can register the children and start our learning time. The following week we will return to the procedure of dropping off at the gate. The reason for not following this procedure permanently is because (i) we can keep the children and staff safer on site in the mornings, (ii) the children develop independence better, and (iii) the flow of traffic is better and frees up the parking spaces (be prepared for parking problems next week - we encourage you to walk or cycle if possible please.)
- *The procedure at the end of the day at the moment is that all the children leave with the oldest sibling. This causes many of you to miss out on the opportunity to collect your younger children from the teachers thus losing contact with the teachers and the ability to socialise with other parents in the class. It is also quite a responsibility on the oldest child to collect the younger ones. These changes were originally made of course due to the pandemic, but we now feel that we can return to the procedure where everyone will be collected from the main entrance gate, adhering to the following time schedule, with staggered times, in order to ensure space for everyone and allow you as parents to leave the site and the car parks gradually.*

Each child will therefore leave with their own teacher/classroom teacher at the following times:

3:20 – Nursery – to be collected from the outside play area of the Nursery

3:20 - Reception - to be collected from the front door (normal Nursery door)

3:20 - Yrs.1&2 - to be collected in front of the school - Yr.1 side of the Hall; yr.2 side of the bike shelter

3:25 - Yrs.3&4 - to be collected in front of the school - Yr.3 side of the Hall; yr.4 side of the bike shelter

3:30 - Yrs.5&6 - to be collected in front of the school.

We will monitor this new procedure and adjust it if we see the need to do so. It is difficult to predict how the system will work, but we kindly ask everyone to try their best to adapt and be prompt.

Breakfast Club

The Breakfast Club will be open daily again this year. You can drop your children off at 8:15am to attend the Club. In order for us to have an estimate of the numbers that will attend you need to register before they start by emailing swyddfa@ysgolgydraeg.ceredigion.sch.uk The Breakfast Club provides juice and yoghurt for those who wish .

After School Club

The After School Club will continue following the same procedure for this academic year. A Forms link will be sent out weekly for booking for the following week. The cost for the Club is £8 per night per child. The Club is open until 5:15pm

Urdd Membership

At the start of a new school year we encourage pupils to join the Urdd. You can do that by going to [Join | Urdd Gobaith Cymru](#) By being a member you will be able to attend Clwb yr Urdd and take part in sports and eisteddfod competitions during the year.

Individual/family photos

Tempest photography company will be at the school on Thursday the 12th of October in the school hall for individual and family photography.

Half Term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. As you can see, it is relatively empty at the moment, but we will add to it as various activities are organised. A link to the calendar will be included in each letter, and it lives permanently on the school's website www.ysgolgydraeg.cymru

Important dates

We wish to inform you of important dates at the end of each letter. For your information the date for this year's Christmas Concert is December 13th in the Great Hall; and the school will close for the Christmas holidays on Thursday the 21st of December at 3:30pm.

If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yours sincerely,
Gareth L James
Acting Headteacher
01/09/2023